**TGAU**

3000N30-1A

S18-3000N30-1A

# CYMRAEG IAITH

**Uned 3**

**Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Cyfarwyddiadol a Pherswâd**

DYDD GWENER, 11 MAI 2018 – BORE

2 awr

## DEUNYDD DARLLEN I'W DDEFNYDDIO GYDAG ADRAN A

3000N301A 01

© WJEC CBAC Cyf.

## DARN DARLLEN 1

### Cofio Can Mlynedd Ers Y Rhyfel Byd Cyntaf

Dros y pedair blynedd diwethaf bu pob math o ddigwyddiadau ledled Cymru i gofio canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf 1914 - 1918. Ond, pam cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf?

- Gwasanaethodd cyfanswm o 272,924 o Gymry yn y rhyfel.
- Roedd hyn yn 21.5% o holl ddynion y wlad.
- O'r rhain cafodd tua 35,000 eu lladd.



| **Arddangosfa Pabi Coch** | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | Castell Caernarfon |
| **Dyddiadau:** | 11 Hydref hyd 20 Tachwedd 2016 |
| **Arddangosfa:** | Rhaeadr o flodau pabi coch |
| **Artistiaid:** | Paul Cummins a Tom Piper |
| **Arwyddocâd:** | 888,246 pabi seramig, un ar gyfer pob milwr o Brydain a fu farw yn y rhyfel |
| **Ymwelwyr:** | Mewn chwe wythnos, aeth dros 130 mil o bobl i'w gweld |

4 Awst 1914 cyhoeddodd Prydain ryfel yn erbyn Yr Almaen.

↓

Roedd angen 100,000 o ddynion ar Lywodraeth Prydain i ymuno â'r fyddin.

↓

Er mwyn perswadio pobl i ymrestru, defnyddiwyd pob math o dactegau recriwtio. Posteri propaganda oedd un dull effeithiol iawn.

↓

Rhoddwyd pwysau crefyddol a chymdeithasol ar ddynion i wneud eu rhan.

↓

Cafodd cyfarfodydd recriwtio eu cynnal ar hyd a lled Cymru. Ar y dechrau roedd dynion yn tyrru i ymuno.

## DARN DARLLEN 2

### Recriwtio a gofynion bod yn filwr


**Pam roedd dynion yn rhuthro i fynd i ryfel yn 1914?**




1. Er mwyn profi dewrder
2. Cyfle i fynd ar antur
3. Siawns am hwyl a chael gweld y byd
4. Dianc rhag swyddi diflas
5. Cael ymladd dros eu gwlad
6. Ymuno â chriw o ffrindiau – bataliwn cyfeillion
7. Roedd y mwyafrif yn credu y byddai'r rhyfel yn un byr ac y byddai wedi gorffen erbyn y Nadolig.
8. Hwn oedd y rhyfel byd cyntaf, doedd gan bobl ddim syniad pa mor erchyll fyddai ymladd yn y ffosydd.
9. Rhoddwyd pwysau crefyddol ar Gristnogion i amddiffyn gwledydd bychain.
10. Roedd pwysau cymdeithasol ar bob dyn i brofi nad oedd yn llwfr neu'n gachgi.

### Gofynion bod yn filwr

Fyddech chi wedi cael eich derbyn i'r fyddin yn 1914? Roedd yn rhaid i chi fod:




ⓗ WJEC CBAC Cyf. 

Trowch y dudalen.


## DARN DARLLEN 3

### Hanes Hedd Wyn



Yn Eisteddfod Genedlaethol Penbedw ar 6 Medi 1917, Ellis Humphrey Evans, neu Hedd Wyn o Drawsfynydd oedd enillydd Cystadleuaeth y Gadair, am ei awdl 'Yr Arwr'. Gorchuddiwyd y Gadair â lliain du pan gyhoeddwyd bod y bardd buddugol wedi'i ladd ar 31 Gorffennaf ym Mrwydr Cefn Pilkem. O ganlyniad i hyn, cafodd yr eisteddfod ei galw yn Eisteddfod y Gadair Ddu.






Mab fferm Yr Ysgwrn, Trawsfynydd oedd Hedd Wyn, ond roedd yn hoff iawn o farddoni. Ar 7 Mai 1916 roedd gan y Llywodraeth yr hawl i alw pob dyn sengl rhwng 18 a 41 i gofrestru i fynd i ymladd. Dim ond dynion mewn swyddi allweddol i'r ymgyrch ryfel, oedd yn cael osgoi ymuno â'r lluoedd arfog. Roedd y rhain yn cynnwys glowyr, gweithwyr mewn ffatrïoedd arfau, meddygon ac amaethwyr. Er i Hedd Wyn geisio dangos bod ei angen ar y fferm, penderfynwyd y byddai'n rhaid iddo ef neu ei frawd iau, Bob, fynd i'r rhyfel.

Roedd Hedd Wyn yn un o filoedd o filwyr a laddwyd. Roedd ei farwolaeth yn 30 oed yn symbol o'r holl Gymry ifanc a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Cafodd ffilm ei gwneud o hanes Hedd Wyn a chafodd ei henwebu am Oscar.

*Addasiad o Lyfr y Ganrif, Andy Misell*

**DARN DARLLEN 4**

**Taith gan Gwmni Teithio Seren Arian i Goffáu Can Mlynedd ers Marwolaeth Hedd Wyn yn 1917**

SERENARIAN
GWYLIAU A THEITHIAU

**Taith Arbennig i Goffáu Can Mlynedd ers Marwolaeth Hedd Wyn**
Ymunwch â Gwyliau Seren Arian ar wyliau tywys arbennig. Archebwch eich lle'n fuan i osgoi cael eich siomi.

**28.07.2017: Teithio a Chyngerdd**
Byddwn yn gadael gogledd Cymru yn oriau mân y bore ac yn teithio ar fws cyfforddus i ddal fferi o Dover i Calais. Ar ôl bore o deithio drwy'r wlad brydferth, byddwn yn cyrraedd ein gwesty moethus yn y prynhawn, gan roi amser i chi ymlacio cyn pryd nos blasus a dewis da o win. Ar ôl y gwledda, byddwn yn cael ein difyrru gan Gôr Meibion Prysor o Drawsfynydd.

**29.07.2017: Mynwent Tyne Cot, Amgueddfa Passchendaele a Chyngerdd Coffa Langemark**
Byddwn yn ymweld â Mynwent Tyne Cot, ar gyrion tref Ypres. Yn y prynhawn, byddwn yn ymweld ag Amgueddfa Goffa Passchendaele, sy'n canolbwyntio'n unig ar Frwydr Passchendaele 1917. Byddwn yn dychwelyd i'n gwesty i gael pryd nos cynnar, gan fod gennym docynnau i wrando ar Rhys Meirion yn canu yn Eglwys Gadeiriol hardd St Paul yn Langemark.

**30.07.2017: Dadorchuddio Cofeb i Hedd Wyn ar Wal Habegos, Gwasanaeth Coffa yn Artillery Wood a *Chaniad Olaf Arbennig wrth Borth Menin**
Ar ôl mwynhau brecwast helaeth a bore hamddenol, byddwn yn ymweld â thref fach Habegos, a rhannu'r profiad arbennig o weld cofeb newydd i Hedd Wyn yn cael ei dadorchuddio.

Yn y prynhawn, byddwn yn gwneud y daith deimladwy drwy'r rhesi ar resi o gerrig beddi gwynion at fedd Hedd Wyn yn Artillery Wood. Yno bydd gwasanaeth arbennig gan Gôr Rygbi Gogledd Cymru i nodi canmlwyddiant ers marwolaeth y Preifat Ellis Humphrey Evans.
Bydd cyfle i fwynhau amser rhydd yn Ypres a swper yn cynnwys danteithion gorau'r ddinas cyn y Caniad Olaf llawn emosiwn i Hedd Wyn gyda chorau Cymraeg wrth Borth Menin.

**31.07.2017: Coedwig Mametz**
Byddwn yn teithio i'r de i safleoedd dirdynnol brwydrau cyntaf y Somme. Yn y prynhawn, byddwn yn gweld cofeb draig goch drawiadol i'r Cymry yng Nghoedwig Mametz.

**01.08.2017: Teg Edrych Tuag Adref**
Byddwn yn ffarwelio a theithio i Calais i ddal fferi'r bore i Dover ar gyfer rhan olaf ein taith yn ôl i Gymru.

**Caniad Olaf – seremoni nosweithiol i gofio'r milwyr a fu farw.*





**DARN DARLLEN 5**

golwg360

## Aelod Seneddol yn galw am newid isafswm oedran recriwtio i'r lluoedd arfog



**'Rhowch y gorau i recriwtio plant'**



*Liz Saville-Roberts*
*(Aelod Seneddol Dwyfor Meirionnydd)*

Mae AS Plaid Cymru, Liz Saville-Roberts yn galw ar Lywodraeth San Steffan i adolygu'r isafswm oedran y gall person ymuno â'r lluoedd arfog (y fyddin, y llynges a'r awyrlu). Mae hi'n dadlau bod angen ystyried codi'r oedran o 16 i 18 oed.

**'Plant dan oed' yw unrhyw un iau na deunaw**
Yn ôl y gyfraith, nid yw pobl ifanc yn oedolion nes iddyn nhw gyrraedd 18 oed. Os ydych o dan 18, chewch chi ddim prynu tân gwyllt na chyllyll. Chewch chi ddim rhoi bet, yfed alcohol na chael tatŵ. Ddylech chi ddim chwarae gemau cyfrifiadur sy'n dangos brwydro fel *Mortal Kombat* a *Call of Duty*, oni bai eich bod yn ddeunaw oed.

**"Poeni am les pobol ifanc"**
"Rwyf wedi galw'r ddadl hon oherwydd fy mod yn poeni am les pobol ifanc sy'n ymuno â'r lluoedd arfog," meddai Liz Saville-Roberts. "Mae ymchwil yn dangos bod recriwtiaid ifanc yn fwy agored i ddioddef straen wedi trawma, camddefnyddio alcohol a hyd yn oed cyflawni hunanladdiad."

**Adroddiad gan elusen**
Mae adroddiad yr elusen *Medact* yn dangos bod aelodau ifanc iawn o'r lluoedd arfog yn fwy tebygol o ddioddef problemau meddwl oherwydd trawma. Awgryma'r adroddiad hefyd fod pobol ifanc iawn yn fwy tebygol o gael eu dylanwadu gan ddulliau marchnata milwrol.

**Condemnio**
Yn ôl Liz Saville-Roberts, mae arbenigwyr iechyd plant a chyrff rhyngwladol wedi condemnio Llywodraeth Prydain am ei hagwedd.

"Y Deyrnas Unedig yw'r unig aelod o Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig, yr unig aelod o NATO a'r unig aelod o'r Undeb Ewropeaidd sy'n recriwtio plant," meddai. "Er mawr gywilydd i San Steffan, dydy gwledydd fel Zimbabwe, Iran a Gogledd Corea ddim yn recriwtio plant. Rhaid i'r Deyrnas Unedig, ar fyrder, adolygu polisi ymrestru plant."

*Addasiad o erthyglau Golwg (2017)*

**DARN DARLLEN 6**

**"YMUNWCH Â'R FYDDIN A GWELD Y BYD" – OND BETH ARALL?**

**Dyma sylwadau gan yr Esgob John Davies o Eglwys Crist, Abertawe**

Roedd y slogan 'Ymunwch â'r fyddin a gweld y byd' yn gyfarwydd pan oedd y fyddin yn cynnal ymgyrch recriwtio ar un adeg. Awgryma'r slogan fod y fyddin yn gyfle i deithio, dysgu sgiliau a meithrin cyfeillgarwch. Nid oes amheuaeth bod y fyddin yn cynnig pob un o'r rhain. Mae bywydau llawer o unigolion yn gwella a'u hunan-barch yn cynyddu o ganlyniad i ymuno â'r fyddin a chael hyfforddiant. Ond, prif bwrpas lluoedd arfog yw gweithredu'n filwrol i amddiffyn pobl eraill, ac nid yw'r realiti am ymuno â'r fyddin yn amlwg bob amser.

Byddwn i ymhlith y cyntaf i ddweud fy mod i'n edmygu a pharchu pob aelod o'n lluoedd arfog ac i ganmol eu dewrder, eu sgiliau a'u hymdrech at heddwch a thegwch. Ond byddwn ymhlith y cyntaf i gefnogi'r ymgyrch i godi'r oedran recriwtio i 18 oed. Byddwn hefyd yn awgrymu 20 oed fel yr oedran i gymryd rhan mewn gweithredu milwrol am y tro cyntaf. Hyd yn oed yn y Rhyfel Byd Cyntaf, 18 oed oedd yr oedran isaf o ran recriwtio, gyda gweithredu milwrol o bosib yn dechrau yn 19 oed.

Waeth pa mor aeddfed mae pobl 16 oed yn ymddangos, nid oes hawl ganddynt bleidleisio, gyrru, priodi (heb ganiatâd) na phrynu alcohol neu dybaco. Yn gyfreithiol maen nhw'n dal yn blant neu'n bobl ifanc dan oed. Yn bwysicach na hynny, yn aml nid ydynt yn ddigon cryf yn feddyliol i wynebu profiadau anodd, risgiau a pheryglon mawr.

Nid yw rhyfel yn newid, er ei fod yn angenrheidiol weithiau. Mae straen wedi trawma yn salwch ofnadwy. Rhaid i ni sicrhau bod unigolion yn ddigon aeddfed i ymdopi. Y cyfan rwyf yn ei ofyn yw codi'r oedran i leihau'r risg hwnnw.

*Addasiad o erthygl ar www.addysg-grefyddol-cymru.org (2014)*

